


Adroddiad Blynyddol

2016-17



Pwy yw CECA Cymru?

Mae Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil (CECA) Cymru yn cynrychioli 60 o fusnesau contractio bach a mawr ym maes peirianeg sifil yng Nghymru. Gyda'i gilydd, mae ganddynt drosiant blynyddol o fwy na biliwn o bunnau ac maent yn cyflogi dros 6,000 o bobl. Mae'r busnesau hyn yn chwarae rhan enfawr yn cefnogi cymunedau ledled Cymru ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at ffyniant economaidd ein gwlad. Yn ogystal, mae ein haelodau'n cynnig lluo o brentisiaethau a chyfleoedd am hyfforddiant.

Ar lefel fwy sylfaenol, ein haelodau ni fydd yn adeiladu'r seilwaith y mae arnom ei angen er mwyn bod yn wlad lewyrchus.

Ed.Evans@cecawales.co.uk
07717 687088 • 029 2081 1116
www.cecawales.co.uk  @ceca_wales

Adroddiad Blynyddol CECA Cymru 2016-17 Beth ddylai'r adroddiad ei ddweud wrthyhych?

Mae'r adroddiad yn ystyried y 12 mis diwethaf a'r sefyllfa ar gyfer contractwyr peirianeg sifil yng Nghymru. Mae'n dangos sut y mae CECA Cymru wedi ceisio ymateb i flaenoriaethau'r aelodau dros y 12 mis diwethaf, sut y mae wedi hyrwyddo buddiannau busnesau contractio peirianeg sifil a sut y mae wedi cyfrannu at Gymru fwy llewyrchus trwy well seilwaith.

Rhan bwysig o'r adroddiad yw ei fod yn rhoi cipolwg ar yr hyn y gallai'r 12 mis nesaf ei gynnig i'r diwydiant ac i'n haelodau.



Meddyliau'r Cadeirydd

Mae'r flwyddyn wedi codi llawer o bethau annisgwyl, Brexit a Trump, ac wedi bod yn heriol i ni i gyd, ond does dim amheuaeth ei fod wedi cynnig cyfleoedd i newid a gwella. Mae buddsoddi mewn seilwaith wedi dod i frig yr agenda o'r diwedd, neu yn agos at y brig, yng Nghymru a ledled y DU. Yn wir, mae'n siŵr ei bod yn deg dweud na chafodd seilwaith gymaint o sylw ers degawdau ac yr ydym ni, yn CECA Cymru, wedi chwarae ein rhan yn cynnal ac yn hybu'r agenda hon. Galwasom ar Lywodraeth Cymru i roi blaenoriaeth i seilwaith ac i roi ymrwymiad clir i greu gweledigaeth ar gyfer seilwaith yng Nghymru. Mae creu swydd newydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith, a Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru yn gamau i'r cyfeiriad cywir ond mae angen mynd yn bellach na hynny.

Mae angen i ni weld y weledigaeth seilwaith yn troi'n realiti, gydag ymrwymadau pendant ar ariannu a chyflawni prosiectau mawr megis y gwelliannau i'r M4 a'r A55, trydaneiddio ein rheilffyrdd, Morlyn Llanw Bae Abertawe a llawer o rai eraill. Dyna beth y mae arnom ei angen i'n helpu i gynllunio at y dyfodol, cyflogi a hyfforddi rhagor o bobl ac adeiladu'r seilwaith y mae arnom ei angen i ddatblygu ein heconomi. Fodd bynnag, er ein bod i gyd yn obeithiol bod y rhagolygon llwyth gwaith hirdymor yn gywir, mae'r Arolygon Tueddiadau Llwythi Gwaith a baratowyd gan CECA yn rhoi darlun llai hyderus ar gyfer contractwyr dros y 12 mis nesaf. Dyna pam y mae angen i ni ddal ati i gyflwyno'r achos dros wario ar seilwaith a dal i bwysu ar lywodraeth ar bob lefel.

A minnau'n nesáu at ddiwedd fy nghyfnod fel cadeirydd CECA Cymru, rwy'n falch ein bod wedi ennill ein plwyf fel corff allweddol sy'n dylanwadu ar benderfynwyr, cleientiaid, gwleidyddion ac arianwyr. Drwy'r gwaith a wnaed gan Ed Evans, ein Cyfarwyddwr, maent yn gwybod yn iawn pwy ydym ni, pwy rydym yn eu cynrychioli a beth yw'n hamcanion ni. Ond maent yn gwybod hefyd ein bod ni'n barod i gydweithio â nhw, eu cefnogi a'u helpu i sicrhau Cymru fwy llewyrchus a gwydn.

Peter Crabtree,
Cadeirydd CECA Cymru



Syniadau'r Cyfarwyddwr

Ar ddiwedd fy mlwyddyn gyntaf fel Cyfarwyddwr CECA Cymru, gallaf edrych yn ôl ar flwyddyn o newidiadau a chythrwfl ledled Cymru, y Deyrnas Unedig, Ewrop a'r byd. Yn ddi-os, bu'n flwyddyn gyffrous ac yn dipyn o her!

Fy mlaenoriaeth gyntaf pan ymunais oedd deall pryderon aelodau CECA Cymru yn well, eu cyflwyno'n glir mewn cynllun strategol ar gyfer y dyfodol ac yna gydweithio ag eraill i symud ymlaen a chyflawni ein hamcanion. Wrth gwrs, nid oedd 12 mis yn ddigon i gyrraedd y nod, ond rwy'n hyderus ein bod yn symud i'r cyfeiriad cywir. Nid yw'n syndod mai buddsoddi, caffael, sgiliau, recriwtio, ac iechyd, diogelwch a lles ein gweithlu oedd ar frig agenda ein haelodau. Ffordd arall o edrych ar y sefyllfa yw bod angen cynyddu'r llwyth gwaith, symleiddio'r ffordd y cawn y gwaith, sicrhau bod gennym ddigon o'r bobl iawn i wneud y gwaith a sicrhau bod y bobl hyn yn cael y gofal priodol.

Rwy'n siŵr y gall pawb ohonom ddeall a derbyn y neges honno wrth i ni symud ymlaen at flwyddyn a fydd, gobeithio, yn fwy addawol a llwyddiannus i ni i gyd.

Ed Evans,
Cyfarwyddwr, CECA Cymru

Blaenoriaethau allweddol CECA Cymru dros y 12 mis diwethaf – sut aeth hi?

Cytunwyd ar 5 maes blaenoriaeth ar gyfer 2016 a oedd yn achosion pryder yn y diwydiant.

1

Gwerthfawrogi Seilwaith

Cytunodd pawb fod pwysleisio gwerth seilwaith i economi Cymru a cheisio sicrhau mwy o fuddsoddi yn flaenoriaeth allweddol i CECA Cymru – er budd yr aelodau ac, yn ehangach, er budd poblogaeth Cymru.

Ers yr alwad hon i weithredu, rydym wedi bod yn trafod yn barhaus gyda Llywodraeth Cymru ac yn eu cefnogi wrth ddatblygu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol ar gyfer Cymru. Buom ni, a'n partneriaid yn y diwydiant adeiladu, yn cyflwyno tystiolaeth i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddangos pam y mae Comisiwn statudol, hyd braich o'r llywodraeth, yn hanfodol er mwyn gwella rhagolygon

economaidd Cymru. Mae adroddiad y Pwyllgor yn dangos pam mor llwyddiannus oedd y drafodaeth hon. Mae arwyddion cynnar gan Ysgrifennydd y Cabinet yn awyrgymu y ceir canlyniad cadarnhaol. Bu CECA Cymru'n cydweithio â Phlaid Cymru i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd Comisiwn trwy drafodaethau brecwast traws-sector o dan arweiniad Adam Price, Gweinidog yr Wrthblaid dros yr Economi. A threfnwyd trafodaeth fusnes gennym gyda Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Seilwaith a Sgiliau a Julie James, y Gweinidog dros Wyddoniaeth a Sgiliau yng Nghynhadledd Wanwyn y Blaid Lafur.

"trafod yn barhaus gyda Llywodraeth Cymru ac yn eu cefnogi wrth ddatblygu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol "



“...i sicrhau bod costau ymgeisio am gontractau mor isel ag y bo modd a bod y cleientiaid yn cael cymaint o werth ag y bo modd am eu harian”

2 Symleiddio'r Prosesau Caffael

Mae caffael yn dal yn bwnc eithriadol o ddadleuol i gontractwyr peirianeg sifil. Prosesau caffael y sector cyhoeddus yw'r porth rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat ond, yn aml, mae'r broses yn fiwrocataidd, yn gostus ac yn araf. Mae symleiddio'r broses o ymgeisio am waith, gan ei gwneud yn fwy effeithlon ac effeithiol, wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i CECA Cymru.

Buom yn cydweithio â chleientiaid ar brosiectau adeiladu mawr yn cynnwys Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, Dŵr Cymru a Network Rail i sicrhau bod costau ymgeisio am gontractau mor isel ag y bo modd a bod y cleientiaid yn cael cymaint o werth ag y bo modd am eu harian.

Paratôdd CECA adroddiad ar bwnc caffael, o'r enw “*Directions in policy for the UK infrastructure industry*”, wedi'i seilio ar ymatebion aelodau, ac mae'n gwneud cyfres o argymhellion ar gyfer gwelliannau. Mae'r adroddiad hwn yn sylfaen ar gyfer y trafodaethau sydd ar y gweill gyda chleientiaid sy'n cymryd rhan mewn prosiectau adeiladu mawr.



3

Denu Gweithlu Amrywiol a Dawnus

Un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r diwydiant yw denu digon o bobl ddawnus, o wahanol gefndiroedd, i'r gweithlu, i gynnal y sector wrth i'r cynnydd a ddisgwylir yn y llwyth gwaith ddatblygu. Er mwyn gwneud hyn, rydym wedi cydweithio â nifer o randdeiliaid a phartneriaid yn y diwydiant i ddatblygu llwybrau gyrfa clir a phrentisiaethau achrededig ar gyfer pobl sy'n cychwyn yn y diwydiant. Er bod gennym beth ffordd i fynd o hyd, ein nod yw cynnig llwybr cyson ar gyfer

contractwyr safle a fydd yn ein helpu i ddenu pobl newydd, a pherswadio rhieni ac athrawon o werth gyrfa mewn peirianeg sifil.

Rydym hefyd yn gwneud mwy i gadw mewn cysylltiad ag aelodau iau trwy'r cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau ac rydym yn gobeithio trefnu cystadleuaeth arwain a datblygu, mewn partneriaeth â'r Lluoedd Arfog, ar gyfer enillwyr ein Gwobrau Blynyddol.

4

Gweithlu Medrus lawn

Mae'n hanfodol ein bod yn cynnig cyfleoedd da o ran hyfforddi a datblygu ac yn cynnig gwasanaeth addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain fel y caiff pobl sy'n cael eu denu i'r sector neu sydd eisoes yn rhan o'r gweithlu gynnal a datblygu eu gallu.

Rydym ni yn CECA Cymru wedi datblygu rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer ein haelodau sy'n canolbwyntio ar sgiliau contractiol, yn bennaf ar ffurf contractau'r NEC, deddfwriaeth newydd sy'n benodol ar gyfer Cymru, fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Deddf yr Amgylchedd a Deddf Cynllunio (Cymru), profiadau o ffug dreial, a sgiliau meddalach fel cyfathrebu ac ymwybyddiaeth wleidyddol.

Buom yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru, darparwyr hyfforddiant a rhanddeiliaid yn y diwydiant i sicrhau cysondeb o ran safonau cymwysterau a llwybrau gyrfa ar gyfer y sector peirianeg sifil.



5

Sicrhau iechyd, diogelwch a lles ein gweithlu

Mae iechyd, diogelwch a lles ein gweithlu yn hanfodol i'n diwydiant. Mae gan bob teulu hawl i ddisgwyl i unrhyw aelod sy'n gweithio yn y diwydiant ddod adre'n ddiogel o'r gwaith ar ddiwedd pob diwrnod gwaith.

Yn gynharach yn y flwyddyn, paratôdd CECA eu dogfen Dylunio a Rheoli Adeiladu (CDM) eu hunain yn nodi ac yn hyrwyddo arferion da yn y diwydiant. Cafodd hon groeso da ledled y diwydiant ac fe'i defnyddir gan lawer i hybu gwelliannau.

Mae adroddiad ar iechyd, diogelwch a lles y gweithlu yng Nghymru yn cael ei baratoi ar hyn o bryd a bydd yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â phrofiadau o weddill y Deyrnas Unedig i'n helpu i benderfynu ar feysydd i'w gwella.

Ledled y Deyrnas Unedig, fel rhan o'r ymgyrch "Stop. Make a Change" dan arweiniad CECA, roedd busnesau trwy'r sector cyfan yn "tynnu gweithwyr yn ôl" er mwyn tynnu sylw'n benodol at broblemau'n ymwneud â lles gweithwyr a chanolbwyntio arnynt. Ein gobaith yw y bydd hyn yn dod yn ddigwyddiad rheolaidd.





Dathlu llwyddiant

Mae'r hen ddywediad "gweithio'n galed, chwarae'n galed" yn berthnasol iawn i'r diwydiant adeiladu. A dyna pam, yn ystod y flwyddyn, mae'n bwysig i ni gael dod at ein gilydd i ddathlu llwyddiant ac, weithiau, i wneud dim ond ymlacio.

Diwrnod Golff Blynyddol CECA Cymru 2016

Ym mis Hydref, daeth aelodau a gwahoddedigion ynghyd ar Gwrs Golff Porthcawl i gystadlu am Dlws CECA Cymru. Costain oedd y tîm buddugol. Cafwyd diwrnod gwych o golff mewn lleoliad delfrydol ar dywyddd hyfryd, a chyfle i anghofio am heriau'r gwaith am ychydig.



Gwobrau Blynyddol CECA Cymru 2016

Enillwyr Gwobrau Blynyddol CECA Cymru 2016 oedd:

Bethan Jones (dde)	Robert Geraint Fon Williams
Peiriannydd Graddedig Buddugol	Prentis Buddugol
Raymond Brown Ltd	Jones Bros (Ruthin)
Steve Morgan	Brian Roberts (dde pellaf)
Peiriannydd Di-radd Buddugol	Gwobr Oes
Alun Griffiths (Contractors) Ltd	Jones Bros (Ruthin)



Dathliadau Traws-Sector yn y Senedd 2016

Yn nes ymlaen yn y flwyddyn, ymunodd Enillwyr Gwobrau CECA Cymru 2016 ag eraill o'r diwydiant yn Nathliadau Traws-Sector y Senedd a drefnwyd gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru dan nawdd Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig. Mae hwn yn gyfle gwych i ddathlu goreuon y diwydiant.



Cynnydd trwy Gydwethio

Ni fydd gwelliannau'n digwydd trwy un sefydliad ar ei ben ei hun. Er mwyn sicrhau'r newidiadau angenrheidiol, mae CECA Cymru'n dal i gydweithio ag eraill i hybu'r blaenoriaethau sydd gennym yn gyffredin. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi:

- Cefnogi llywodraethau, gwleidyddion a phenderfynwyr eraill trwy gyflwyno safbwyntiau'r sector a thystiolaeth wedi'i seilio ar ffeithiau mewn meysydd penodol
- Cydweithio â chleientiaid allweddol i gynyddu'r gwerth trwy rannu gwybodaeth a datblygu arferion da
- Cydweithio â rhanddeiliaid eraill i hyrwyddo'r materion sydd gennym yn gyffredin

"cynyddu'r gwerth trwy rannu gwybodaeth a datblygu arferion da"

Cynghrair Ffederasiwn Adeiladu Cymru (WCFA)

Mae CECA Cymru, FMB, SEC, HBF, MPA a BMF yn aelodau o WCFA sy'n cynrychioli buddiannau ffederasiynau crefftau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r diwydiant adeiladu. Er ein bod yn cynrychioli gwahanol sectorau yn y diwydiant adeiladu, rydym yn wynebu llawer o'r un problemau mewn meysydd sy'n amrywio o gaffael, deddfwriaeth a buddsoddi i sgiliau, recriwtio a hyfforddiant. Mae ein partneriaeth yn ein gwneud gryn dipyn yn gryfach ac yn fwy effeithlon wrth ymwneud â llywodraethau, cleientiaid a rhanddeiliaid eraill ac yn ychwaegu gwerth at aelodaeth y gwahanol gyrff.

Cyd-bartneriaeth Peirianeg Sifil – CECA Cymru, ICE Cymru, ACE, CEW, CIWM, CIHT

Fel partneriaeth, rydym yn cynrychioli buddiannau amrediad eang o randdeiliaid ym maes seilwaith gan gynnwys cyfran fawr o'r cyrff sy'n ymwneud â seilwaith. Mae hyn yn golygu bod i ni bresenoldeb sylweddol wrth hyrwyddo gwerth seilwaith i economi Cymru ac wrth dynnu sylw at yr angen am fwy o fuddsoddi.

Edrych ymlaen at y 12 mis nesaf

Bu 2016 yn flwyddyn gythryblus iawn o safbwynt gwleidyddol. A fydd 2017 yn debyg? Pwy a wŷr, ond yn sicr bydd angen i ni ddelio â chanlyniadau'r hyn a ddigwyddodd yn 2016.

Bydd dyfodol yr Undeb Ewropeaidd yn dal yn destun trafod wrth i nifer o wledydd Ewrop gynnal etholiadau. Bydd polisïau "America Gyntaf" Donald Trump yn cael effeithiau byd-eang, nid yn lleiaf yr effaith ar allu'r Deyrnas Unedig i sicrhau cytundebau masnach manteisiol. Yn nes adref, bydd y pwysau ar y bunt yn effeithio ar gost mewnforion ac mae cyfyngiadau ar fewnfudo'n debygol o'i gwneud yn fwy anodd recriwtio gweithwyr.

O safbwynt CECA Cymru, er mwyn i ni gynrychioli buddiannau ein haelodau, gwyddom y bydd angen i ni barhau i gydweithio ag eraill er mwyn sicrhau'r newidiadau y mae arnom eu hangen. Mewn gwirionedd, mae ein blaenoriaethau ar gyfer 2016 yn dal yn berthnasol ac felly byddwn yn parhau i weithio ar:

- Gynyddu buddsoddiad mewn seilwaith trwy hyrwyddo ei werth
- Symleiddio'r broses gaffael gan ei gwneud yn haws ac yn llai costus i ennill gwaith
- Sicrhau bod y gweithlu'n fwy amrywiol ac yn fwy dawnus
- Cynyddu lefelau sgiliau er mwyn cyflawni'r gwaith yn well
- Sicrhau ein bod yn gofalu am iechyd, diogelwch a lles ein gweithlu

Byddwn yn parhau i gryfhau ein cysylltiadau gyda gwleidyddion a chleientiaid allweddol er mwyn cyfleu ein neges bod arnom angen fwy o fuddsoddi mewn seilwaith. Byddwn yn paratoi adroddiad ar werth buddsoddi mewn seilwaith i economi Cymru ac yn ei ddefnyddio i gefnogi ein trafodaethau gyda phenderfynwyr.

Mae gwir angen gwelliannau i'r broses gaffael gyhoeddus er mwyn i ni sicrhau mwy o werth am arian wrth fuddsoddi mewn seilwaith. Rydym wrthi'n paratoi adroddiad, ar y cyd ag ACE a Chymdeithas y Syrfewyr Sirol, i dynnu sylw at y tri phrif beth y mae angen eu gwella ym maes caffael. Byddwn yn defnyddio'r adroddiad hwn ac adroddiad arall gan CECA ar faint mae'n gostio i gontractwyr fidio er mwyn sicrhau newidiadau er lles gyda chleientiaid.

Ar ôl gosod sylfeini ar gyfer llwybrau gyrfa contractwyr peirianeg sifil, byddwn yn symud ymlaen â'n cynlluniau ar gyfer prentisiaethau Lefel 2 a 3 ar gyfer Cymru gyfan, gyda Cymwysterau Cymru'n datblygu cymwysterau achrededig. Yn ogystal, byddwn yn cefnogi datblygiad dulliau o gysylltu'n well ag ysgolion, disgyblion a rhieni er mwyn denu mwy o bobl i'r diwydiant a byddwn yn dal i ddatblygu rhaglen hyfforddi CECA Cymru ar gyfer y rhai sydd eisoes yn y gweithle.

Ac yn olaf, ond nid yn lleiaf, byddwn yn helpu aelodau i wella iechyd, diogelwch a lles y gweithlu.

Felly, mae llawer o waith i'w wneud ond llawer i edrych ymlaen ato dros y 12 mis nesaf.